OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1914 (Cy.205)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 47, Penlle'r-gaer, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed 1 Awst 2011

Yn dod i rym 8 Awst 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith i roi wyneb newydd arnynt, gwaith marcio'r lonydd a gwaith cynnal a chadw.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Awst 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 47, Penlle'r-gaer, Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith a arweiniodd at y Gorchymyn hwn a cherbydau'r gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 8 Awst 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Awst 2011

G Morgan
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Gwahardd cerbydau

i. Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain o bwynt wrth ei chyffordd â chylchfan Penlle'r-gaer yr A48 hyd at bwynt wrth ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain.

ii. Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain o bwynt wrth ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â chylchfan Penlle'r-gaer yr A48.

iii. Y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin o bwynt wrth ei chyffordd â chylchfan Penlle'r-gaer yr A48 hyd at bwynt wrth ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

iv. Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin o bwynt wrth ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at bwynt wrth ei chyffordd â chylchfan Penlle'r-gaer yr A48.